

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 18 Medi 2018

**Presennol:** Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Cyng. Gordon Owen  
Cyng. William Victor Owen  
Cyng. Sharon Wyn Parry  
Cyng. Einir Thomas  
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Dim

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

**3. Cofnodion cyfarfod**

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir yn dilyn diwygiad i eitem 3 (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Einir Thomas.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r bylchau wedi cau gan fod y teils wedi chwyddo yn ôl wrth i'r tywydd newid. Roedd McVenture Playgrounds Ltd angen trwsio'r swing.
2. Gweithdy Cynllunio Lle - Roedd cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu yn y Neuadd Bentref rhwng 2 a 5 o'r gloch dydd Mawrth 25 Medi, byddai aelodau o staff o Medrwn Môn yn bresennol.
3. Model Newydd Rheoliadau Sefydlog 2018 - cytunwyd i dderbyn a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig fel yr argymhellwyd gan Un Llais Cymru.
4. Llwybrau - nodwyd bod yna gamfa wedi torri ar lwybr troed Rhif 20.
5. Cynnal a Chadw Priffyrdd - gwnaed sylwadau ynghylch y gwaith gwael a wnaed ar wyneb y lon yn dilyn y gwaith o osod y ceblau trydan newydd yng Nghaergeiliog. Mynegwyd pryderon am gyflwr y bont rheilffordd yn dilyn y gwaith a wnaed ar Gamp Fali. Roedd y clerch am ganfod pa waith pellach a gynlluniwyd gan CSYM.
6. Hysbysfwrdd - byddai'r clerch yn gofyn i'r Cyngor Sir am ganiatâd i godi hysbysfwrdd wrth y fynedfa i Stad Treifan.

Llofnod.....Cadeirydd.....

7. Parcio Ffordd Minffordd - roedd y broblem gyda cheir yn parcio ar y palmant y tu allan i'r modurdy wedi'i gyfeirio at CSYM.
8. Meysydd carafanau – Roedd y cleric i wneud ymholiadau gyda CSYM ynglŷn â'r rheolau cynllunio.
9. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - roedd angen gwneud cais am linellau melyn dwbl y tu allan i'r fynedfa newydd i'r Capel a'r Tŷ Capel

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

**5.1 Penderfyniadau cynllunio**

**2C2130 2 Trem Cymyran**

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – wedi ei ganiatau.

**5.2 Ceisiadau Cynllunio**

**32C123E/VAR – Bryn Ednyfed, Caergeiliog.**

Cais o dan Adran 73 ar gyfer amrywio amod (01) o ganiatâd cynllunio 32C123D (Cais llawn ar gyfer y defnydd cyfreithlon o'r safle ar gyfer dim mwy na 20 o garafanau rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref, cynnydd mewn storio gaeaf ynghyd â chadw llwybr mynediad a gweithrediadau peirianeg) er mwyn caniatáu 24 llain galed ar gyfer carafanau, gweithrediadau peirianeg a hefyd i ddefnyddio'r safle drwy gydol y flwyddyn. – Angen anfon ymholiad i'r Adran Gynllunio gan fod y cais yn ymddangos ar wefan CSYM ond ni hysbywyd y Cyngor Cymuned amdano.

**32C211- Tir Ger 62 Dol Eithin, Caergeiliog.**

Cais amlinellol ar gyfer codi dwy annedd fforddiadwy yn cynnwys manylion llawn am mynedfa, edrychiad ac graddfa ar dir ger 62 Dol Eithin – dim sylwadau

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Fforwm Cyswllt - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf
3. Prosiect Sbwriel Morol
4. Gwasanaeth Sul y Cadeirydd 14/10/18 – Roedd y Cadeirydd an fynychu hwn.

**7. Materion Ariannol**

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Yn y banc ar 18.9. 2018 Cyfrif Cyfredol £12,429.12 Cyfrif Cadw £3,924.03

### 8. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Gorff a Awst.)	£366.98	HMRC (TWE)	£91.80
GMS INV4132	£91.20	Archwiliad Cae Chwarae	£40.00
GMS INV4000	£1008	Gwaith Cynnal	£180
Rhent y Neuadd	£400		

**Cytunwyd i dalu'r rhain.**

### 9. **Cyfrifon 17/18 a 18/19**

Cwblhawyd Archwiliad o Gyfrifon 2017/18. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol a'r adroddiad i'r Cyngor, fe godwyd man faterion ynghylch cwblhau'r Ffurflen Flynyddol ond ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'w sylw.

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod hyd at 31.8. 2018 ynghyd â Chysoniad a Datganiadau Banc. Nodwyd bod gwariant ar darged ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

### 10. **Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol**

1. Hyfforddiant Un Llais Cymru – Llangefni (Roedd y clerch am fynychu'r sesiwn ar Defnyddio TG, Gwefannau & Chyfyngau Cymdeithaso ar y 9 fed o Hydref)
2. Cyfryngau Cymdeithasol - Canllaw i Gyngorwyr
3. Cyfarfod cyhoeddus atal y peilonau – y cam nesaf
4. Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol Yng Nghymru
5. Cysylltu Cymunedau yng Nghymru"
6. Independent Remuneration Panel for Wales presentation (Saesneg)
7. Bwletin Un Llais Cymru Awst 2018

### 11. **Unrhyw fater arall:**

- 11.1 Nodwyd bod risg i ddiogelwch ymwelwyr i Gamp Fali gan eu bod yn dringo ar y ffensys ac yn cerdded ar ochr y ffordd i gael gwell golwg ar yr awyrennau ers i'r ffens newydd gael ei chodi o gwmpas y ffin. Roedd y clerch i ysgrifennu at y Llu

Llofnod.....Cadeirydd.....

Awyr i leisio pryderon y Cyngor.

**12. Cyfarfod Nesaf – 16 Hydref 2018**

Llofnod.....Cadeirydd.....